# Cyfrannu at iechyd a diogelwch mewn amgylchedd gyrru bws a choets

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â nodi peryglon y gallwch ddod ar eu traws tra'n paratoi ar gyfer, neu'n gwneud eich gwaith fel gyrrwr bws a/neu goets er mwyn i chi allu cyfrannu at sicrhau eich iechyd a'ch diogelwch eich hun, eich cydweithwyr a theithwyr. Dylech fod yn gallu dangos sut y gallwn gyfyngu perygl a niwed i bobl ac eiddo sydd yn deillio o ddamweiniau neu ddigwyddiadau. Mae'r safon hon yn cynnwys y ganolfan a'r amgylcheddau gweithredu.

Mae'r safon hon ar gyfer gyrwyr a gweithredwyr trafnidiaeth a staff cynnal a chadw.

*Pan fyddwch wedi cwblhau'r safon hon byddwch yn gallu dangos eich gallu a'ch dealltwriaeth o ran:*

Cyfrannu at iechyd a diogelwch yn eich amgylchedd gwaith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi peryglon gwirioneddol a phosibl i iechyd a diogelwch wrth baratoi i yrru, a thra'n gyrru bws neu goets
2. defnyddio canllawiau sefydliadol i gategoreiddio peryglon sydd wedi cael eu nodi
3. cael cymorth gan berson priodol os nad ydych yn sicr am y categori risg
4. cymryd camau diogel a phriodol sydd yn lleihau, cyhyd â phosibl, effeithiau posibl y risg o fewn terfynau eich awdurdod eich hun
5. cofnodi manylion perthnasol y peryglon er mwyn gallu cymryd camau priodol
6. hysbysu'r person priodol ynghylch manylion llawn a chywir y peryglon
7. gweithredu ar unwaith ac yn effeithiol i leihau'r perygl neu'r niwed, heb gynyddu'r perygl neu'r bygythiad i unrhyw un, yn cynnwys chi eich hun
8. bod yn sicr bod y camau a gymerir yn ddiogel ac o fewn terfynau eich awdurdod a'ch gallu
9. dilyn cyfarwyddiadau neu ganllawiau'r sefydliad ar gyfer cyfyngu perygl neu niwed
10. sicrhau bod gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol perthnasol yn cael eu dilyn er mwyn sicrhau mai dim ond teithwyr ac eitemau awdurdodedig sydd wedi eu cynnwys cyn gyrru
11. cael cymorth ar unwaith os na ellir ymdrin â'r perygl yn effeithiol
12. rhoi gwybodaeth neu gyfarwyddiadau clir i eraill i'w galluogi i gymryd camau priodol
13. cofnodi a hysbysu ynghylch manylion y perygl yn unol â chanllawiau eich sefydliad
14. hysbysu ynghylch unrhyw anawsterau yn cadw at gyfarwyddiadau neu ganllawiau iechyd a diogelwch eich sefydliad, gan roi manylion llawn a chywir
15. edrych am gyfleoedd ychwanegol i gyfrannu at iechyd a diogelwch mewn amgylchedd gyrru bws a choets

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y risg a'r peryglon cyffredin i iechyd a diogelwch sy'n debygol o gael eu nodi mewn amgylchedd gyrru bws a choets
2. ble mae'r rhan fwyaf o anafiadau a damweiniau'n digwydd ar y ffordd ac yn amgylchedd canolfannau bws a choets
3. yr ystadegau cymharol ar gyfer damweiniau yn cynnwys bws, coets a mathau eraill o drafnidiaeth ffordd
4. sut i benderfynu ar lefel y risg a nodir wrth baratoi i yrru, a thra'n gyrru bws neu goets
5. y manylion y dylid eu cofnodi a'u hadrodd yn ymwneud â risg a pheryglon a nodir
6. terfynau y cyfrifoldeb a roddir a gallu i gymryd camau ar unwaith i leihau effaith risg cyhyd â phosibl
7. canllawiau eich sefydliad mewn perthynas ag ymdrin â pheryglon
8. ble a sut i gael cymorth os oes angen
9. y gyfraith a'r cosbau perthnasol ar gyfer caniatáu masnachu mewn mewnfudwyr anghyfreithlon a'r dulliau a ddefnyddir gan yr awdurdodau i atal arferion o'r fath
10. sut i osgoi anaf personol, yn cynnwys safle cywir ar y sedd, technegau ymdrin â llaw, y defnydd cywir o offer amddiffynnol personol, cyfleusterau fel radio, larymau a sgriniau, os ydynt wedi eu gosod
11. pryd y mae'n ddiogel ac yn briodol i gymryd camau ar unwaith, heb roi unrhyw un mewn perygl
12. pa gamau y gellir eu cymryd ac a oes awdurdod gennych i'w cymryd, i leihau perygl
13. cyfarwyddiadau neu ganllawiau eich sefydliad yn ymwneud ag ymdrin â sefyllfaoedd peryglus a hysbysu yn eu cylch
14. sut i ddefnyddio offer penodedig a systemau larwm i leihau perygl
15. y dulliau cyfathrebu effeithiol a phriodol i hysbysu eraill am y perygl
16. ble a sut i gael cymorth yn ymdrin â sefyllfaoedd peryglus

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

**Cysylltiadau i Gyfarwyddiaethau'r UE**

Mae'r gofynion gwybodaeth a dealltwriaeth yn yr uned hon yn ymwneud ag amcanion canlynol Cyfarwyddeb yr UE ar gyfer Hyfforddiant Gyrwyr:

Amcan 3.1 – Gwneud gyrwyr yn ymwybodol o beryglon y ffordd a damweiniau yn y gwaith

Amcan 3.2 – Gallu i atal troseddu a masnachu mewn mewnfudwyr anghyfreithlon

Amcan 3.3 – Gallu i atal peryglon corfforol

Dylai sefydliadau sy'n defnyddio'r safon hon sicrhau eu bod yn defnyddio'r gofynion rheoliadol mwyaf diweddar os caiff y cyfarwyddebau a enwir eu disodli.

PPLPCVD02

Cyfrannu at iechyd a diogelwch mewn amgylchedd gyrru bws a choets

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | People 1st |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | People 1st |
| **RCU gwreiddiol** | PPLPCVD02 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gyrwyr a Gweithredwyr Trafnidiaeth, Gweithredu a chynnal a chadw trafnidiaeth |
| **Cyfres/Set** | Gyrru Cerbydau sy’n Cludo Teithwyr (Bws a Choets) |
| **Geiriau Allweddol** | iechyd; diogelwch; perygl; risg |